



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service



Shared Regulatory Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Bariau Shisha

Cyfarwyddyd Diogelwch Tân



Y Man Cychwyn

Asesiad Risg rhag Tân

Os ydych chi'n gyfrifol am adeilad, mae'n bwysig eich bod yn gwneud popeth y gallwch i ostwng y risg rhag tân i ddiogelu pobl. Mae'n arbed bywydau, mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnoch, ac mae'n gwneud synnwyr busnes da. O dan Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, os ydych chi'n gyflogwr, yn berchennog neu'n breswylwr safle nad sy'n 'annedd unigol preifat', mae angen i chi gwblhau Asesiad Risg rhag Tân. Gofyniad cyfreithiol yw hwn – eich dyletswydd i adnabod risgiau a pheryglon tân o fewn eich eiddo.

Os oes pump neu fwy o bobl yn gweithio yn eich safle neu os oes trwydded mewn grym, bydd angen cofnod ysgrifenedig o ganfyddiadau sylweddol eich asesiad risg tân. Yn aml, nid yw busnesau'n adfer yn dilyn tân, ac mae ataliad tân effeithiol yn dechrau wrth ddeall a lliniaru'r risgiau'n gywir.

Os yw eich busnes neu sefydliad yn gymharol fychan ac rydych yn meddwl nad yw'ch risgiau posib yn gymhleth, mae'n bosib cwblhau'r asesiad risg tân eich hun. Cewch ganfod ganllaw i'ch helpu i ddeall beth sy'n ofynnol wrth ddefnyddio'r dolenni isod.

Asesiad Risg Diogelwch rhag Tân

Mannau Ymgynnull Bach a Chanolig

<http://bit.ly/2liqgBp>

Asesiad Risg rhag Tân

Modd o Ddianc i Bobl Anabl

<http://bit.ly/2xRL8L8>

Templed Asesiad Risg rhag Tân

<http://bit.ly/2xP4Rv1>

Gellir canfod cyngor a chyfarwyddyd pellach wrth ymweld â www.decymru-tan.gov.uk




Os yw eich busnes yn fwy neu'n fwy cymhleth, mae'n ddoeth cysylltu ag arbenigwr i ddod i'ch cynorthwyo. Ein cyfrifoldebau yw sicrhau fod yr asesiad risg rhag tân cyflawn yn briodol a digonol - nid ydym yn cwblhau'r asesiad ein hunain. Bydd angen i chi ganfod arbenigwr sy'n briodol gymwys a gall y canllaw dilynol eich helpu i gael gwasanaeth Aseswr Risg Tân priodol;

- Byddwch yn fodlon fod yr aseswr risg tân sy'n cynnal y gwaith yn gymwys. Gellir arddangos hyn wrth iddynt ddarparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â'r meini prawf cymwys a nodwyd gan y Cyngor Cymhwysedd asesiadau Risg rhag Tân.
- Gwiriwch fod ganddynt brofiad o weithio ar gyfer eich math chi o fusnes ac eiddo.
- Byddwch yn glir ynghylch cwmpas y gwaith sydd i'w gynnal a sicrhewch fod gan yr aseswr fynediad at bob ardal o'r safle a bod ganddo/ganddi'r wybodaeth berthnasol.
- Casglwch amcanbrisiau eraill - sicrhewch eu bod oll yn cwmpasu'r un cwmpas fel y cewch gymharu'n briodol.
- Fe'ch cynghorir i ofyn am dystlythyrau gan gleientiaid blaenorol mewn adeiladau o fathau tebyg; holwch hwy os oeddynt yn fodlon ac os adnabuwyd unrhyw broblemau yn hwyrach gan yr Awdurdod Tan ac Achub.
- Mae'n fuddiol i chi ofyn am brawf fod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol digonol a chwilio am sicrwydd fod y contractwr yn ddi-duedd a bod ganddo weithdrefn gwyno.
- Cadwch a chynhaliwch gofnodion o'r camau a gymerwyd gennych wrth ddethol eich asesydd risg tân.

Gellir cael arweiniad pellach wrth fynd at ddogfen arweiniad CPST

<http://bit.ly/2lgs51G>




Diffoddwyr Tân

Gall offer ymladd tân priodol atal tân bach rhag datblygu'n dân mwy. Wrth allu mynd i'r afael â tân llai yn y camau cynharaf, efallai byddwch yn gallu lleihau'r risg i eraill yn yr adeilad wrth alluogi iddynt ddianc. Dylai'r diffoddwyr a ddewiswyd fod yn addas i'r risg a gyflwynwyd yn yr adeilad a'r math o danwydd sy'n bresennol. Dylid eu lleoli mewn man priodol ac amlwg fydd yn galluogi'u defnydd yn hawdd mewn achos o dân. Mae'r tabl isod yn rhoi arwydd o'r math o ddiffoddyddion fydd angen arnoch yn eich safle.


Y prif fathau o ddiffoddyddion cludadwy, eu defnydd a chodau lliw.

DŴR
Ar gyfer coed, papur, tecstilau a thanau deunydd solet




PEIDIWCH Â DEFNYDDIO HWN ar danau hylif, trydan neu fetel

POWDR
ar gyfer tanau hylif a thrydan




PEIDIWCH Â DEFNYDDIO HWN ar tanau fetel

EWYN
ar gyfer tanau hylif



PEIDIWCH Â DEFNYDDIO HWN ar trydan neu tanau fetel

CARBON DEUOCSID (CO²)
ar gyfer tanau hylif a thrydan



PEIDIWCH Â DEFNYDDIO HWN ar tanau fetel

Dynodir cynnwys diffoddydd gan barth o liw ar y corff coch.
Ni ddangosir diffoddyddion Halon gan na chaniateir cynhyrchu Halon newydd yn y DU.

Ffynonellau: Aseiad Risg Diogelwch rhag Tân; Mannau Ymgynnull Bach a Chanolig

Lle darparwyd diffoddyddion tân, ni ddisgwylir i bobl na dderbyniodd hyfforddiant i'w defnyddio - fodd bynnag, dylai'r staff cyfan fod yn gyfarwydd â'u gweithrediad a'u lleoliad. Bydd angen cynnal a chadw ac archwilio pob diffoddydd tân yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i weithio pan fydd gofyn.

Canfod Tân


Dylech gael modd priodol o seinio larwm mewn achos o dân. Bydd y math o system sy'n ofynnol yn dibynnu ar gymhlethdod a chynllun yr adeilad, y pellteroedd teithio i gyrraedd allanfeydd a nifer yr allanfeydd sydd ar gael. Adnabyddir y modd mwyaf priodol o seinio larwm gan eich asesiad risg a dylid gallu clywed y larwm o bob man yn yr adeilad. Bydd unrhyw system larwm a chanfod tân awtomatig yn gofyn am gynnal a chadw, archwilio a phrofi parhaol rheolaidd, a bydd angen dangos tystiolaeth yn ystod archwiliad gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Modd o Ddianc o'ch adeilad

Rhaid cael modd o ddianc addas o'r safle fel y gall unrhyw un ddianc i fan diogel heb gymorth a heb yr angen i gael eu hachub gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Wrth adnabod a chynllunio eich llwybrau dianc, dylai pobl allu troi rhag y tân a gwneud eu ffordd at fan diogel yn y pendraw. Wrth gynllunio eich llwybrau dianc, dylech ystyried anghenion a gofynion yr holl bobl sy'n defnyddio'r eiddo gan gynnwys y rhai sydd ag anabledau. Wrth gynllunio eich llwybr dianc, dylid ystyried y ffactorau canlynol;

- Nifer a math y bobl sy'n defnyddio'r safle hwn
- Yr amser a gymerir i ddianc o'r eiddo
- Adeiladwaith ac oedran yr adeilad
- Nifer y llwybrau dianc a'u cymhlethdod
- Lleoliad y manau ymgynnull
- Yr angen i ddarparu diahangfa â chymorth o'r adeilad i bobl anabl
- Math y system larwm sydd mewn lle

Rhaid i'r allanfa derfynol agor at fan diogel lle gall pobl ddianc ac, yn ddelfrydol, ni ddylid gorfod pasio drwy unrhyw eiddo/adeilad arall.



Arwyddion a Hysbysiadau Dianc mewn Argyfwng

Pennir arwyddion dianc gan eich Aseiad Risg rhag Tân. Lle nad yw'n amlwg bydd pobl yn adnabod y llwybr o'r safle, rhaid adnabod llwybr yr allanfa frys drwy ddefnydd arwyddion priodol. Gan fydd yn debyg y defnyddir eich eiddo gan bobl sy'n anghyfarwydd â'r cynllun, mae'n briodol y darperir arwyddion dianc. Dylid gosod arwyddion lle gellir eu gweld a'u deall yn hawdd - efallai bydd hyn yn gofyn am arwydd sy'n corffori arwyddlun.

Hefyd lle bo'r angen, dylid gosod hysbysiadau fydd yn rhoi cyngor ar gyfarwyddiadau sut i ddefnyddio offer - dylid gosod camau i'w cymryd mewn achos o argyfwng lle cânt eu gweld yn hawdd.


Goleuo Argyfwng

Dylai'r eiddo gael goleuadau argyfwng priodol i adnabod y llwybrau dianc a helpu pobl i adael yr adeilad pe bai tân yn digwydd. Dylech chi ddefnyddio system y gellir dibynnu arni yn ystod cyfnodau o dywyllwch. Fel rhan o'ch aseiad risg rhag tân, dylech adnabod a gosod goleuadau argyfwng mewn ardaloedd lle bo'n ofynnol. Dylai unrhyw oleuo argyfwng gwmpasu'r ardaloedd canlynol;

- Llwybrau dianc
- Croesffyrdd coridorau
- Gerllaw arwyddion dianc rhag argyfwng
- Yn cwmpasu pob set o risiau
- Unrhyw newid o ran lefel
- Mannau offer ymladd tân a rheoli larymau
- Ystafelloedd heb ffenest a thoiledau sy'n llai nag 8 metr
- Cynteddau neu ystafelloedd sy'n fwy na 60 metr
- Y tu allan i bob allanfa derfynol ac ar hyd pob llwybr dianc allanol

Bydd yn ofynnol i brofi unrhyw system oleuo a osodwyd yn rheolaidd a'i gynnal yn gywir. Fel arfer, mae'n ofynnol yr ymgymerir â phrofi gyda'r amledd dilynol;

- Archwiliad gweledol dyddiol
- Prawf swyddogaeth misol wrth brofi unedau goleuo unigol
- Prawf llawn blynyddol gan berson cymwys




Cyfarwyddyd Diogelwch Tân

Gwresogyddion

Lle gosodwyd dyfeisiau gwresogi, mae'n briodol iawn y darperir gwres gan wresogyddion ymledol sy'n barhaol sefydlog na ellir ymyrryd â hwy neu nad sy'n gallu peri risg tân i gwsmeriaid neu staff o fewn yr eiddo. Mae'r defnydd o wresogyddion nwy yn achosi risg tân sylweddol ac nid ydynt yn arbennig o addas i'w defnyddio mewn bariau Shisha o ganlyniad i bresenoldeb deunyddiau llosgadwy o fewn yr adeilad a themtasiwn pobl i ymyrryd â'u rheolyddion. Cyhyd ag sy'n bosib, ni ddylid defnyddio gwresogyddion nwy yn y man cyntaf a dylid mabwysiadu ffynonellau gwresogi amgen. Lle na fydd opsiynau eraill yn bosib, dylid cofnodi defnydd gwresogyddion nwy o fewn eich asesiad risg rhag tân a dylid mabwysiadu gweithdrefnau rheoli priodol. Dylid storio unrhyw silindrau LPG mewn cynhwysydd priodol ymhell o beryglon tân a llwybrau dianc o'r safle. Lle bo'n angenrheidiol cadw silindrau LPG wrth gefn, dylid cyfyngu hyn i 15 cilogram mewn dim mwy na dau silindr. Dylid cadw'r rhain mewn man diogel, sicr sydd wedi'i awyru'n ddigonol lle;

- ni ellir ymyrryd â hwy
- gellir eu cadw'n dalsyth (gyda diogelwch wedi'i osod ar y falf)
- maent yn bell o ffynonellau tanio a/neu ddeunyddiau hylog a
- maent ymhell o ddeunyddiau difaol gwenwynig neu ocsidiol



Golosg a Hwcâu

Wrth waredu golosg hwcâu, rhaid cymryd gofal i atal tanau damweiniol rhag digwydd. Yn ddiweddar, bu nifer o ddigwyddiadau a achoswyd gan ologsg yn cael ei waredu'n ddiofal ac mae tystiolaeth yn awgrymu gall tanau gychwyn o gols maint pysen sydd ynghynn.

Ar ddiwedd pob sesiwn, dylech sicrhau y diffoddwyd golosg yn llwyr. Gellir gwneud hyn wrth socian golosg poeth o dan ddŵr oer drwy ddefnyddio cynhwysydd sy'n gwrthsefyll gwres megis cynhwysyddion ceramig. Dylid gwneud hyn ymhell o ddeunyddiau fflamadwy lle gall tanio damweiniol posib digwydd, o ganlyniad i ddefnydd posib byncer concrit neu fric neu o adeiladwaith tebyg. Dylai'r golosg diffoddiedig gael eu gwaredu mewn cynhwysydd priodol fel bin metel nad sy'n cynnwys unrhyw ddeunyddiau sy'n llosgi.


Gall golosg hwcâu losgi a mudlosgi am gyfnod hir. Bydd y golosg yn cadw'u gwres am amser hir wedi iddynt orffen cael eu defnyddio. Felly, rhaid cymryd gofal gyda hwy gan fydd yn bosib cynnau tân ar sail trosglwyddiad gwres drwy law dargluddiad neu rheiddiad. Ni ddylid caniatáu i'r golosg orwedd ar arwynebedd hylosg, hyd yn oed pan y'u rhoddir mewn cynhwysydd.

Deunyddiau Hylosg

Mae'n debyg iawn bydd eich eiddo'n cynnwys dodrefn fel seddau clustogog, clustogau, cyrtens, llenni a ffabrigau addurnadwy eraill. O'r cychwyn, dylech osgoi deunyddiau o'r fath sy'n hyrwyddo lledaenu tân sydyn. Dylech geisio defnyddio deunyddiau nad sy'n fflamadwy neu sydd â nodweddion sy'n arafu tân.

Dylai pob llwybr dianc fod yn rhydd rhag deunyddiau fflamadwy. Ni ddylech ganiatáu darparu llenni neu gyrtens o fewn llwybrau dianc gan fydd unrhyw dân sy'n cynnwys yr eitemau hyn yn rhwystro llwybrau dianc o'r ardal. Mae'n bosib trin ffabrigau â sylweddau neu chwistrellwyr sy'n arafu tân. Dylid nodi, fodd bynnag, bod gan y triniaethau hyn 'hyd bywyd' cyfyngedig fydd yn dirywio gydag amser. Lle defnyddir triniaethau o'r fath, dylid gwneud hyn yn unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwr.

Gellir cael gwybodaeth bellach wrth gysylltu ag Adran Diogelwch Tân i Fusnesau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru drwy law e-bost diogelwchtan@decymru-tan.gov.uk



Ysmygu Shisha - Canllaw i chi a'ch busnes

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

Mae Deddf Iechyd 2006 yn ei gwneud hi'n drosedd i ganiatáu ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd os ydynt wedi'u hamgáu neu wedi'u hamgáu'n sylweddol. Rhaid i safleoedd sy'n agored i'r cyhoedd fod yn ddi-fwg yn ystod oriau agor; rhaid i adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd yn ogystal â bod yn weithleoedd fod yn ddi-fwg bob amser.

Mae "ysmygu" yn cyfeirio at ysmygu tybaco, neu unrhyw beth sy'n cynnwys tybaco, neu ysmygu unrhyw sylwedd arall sydd ynghyn yn ogystal â meddu ar dybaco ynghyn, neu unrhyw beth ynghyn sy'n cynnwys tybaco, neu feddu ar unrhyw sylwedd arall sydd ynghyn ar ffurf sy'n gallu cael ei ysmygu.


Mae'r diffiniad yn cynnwys shisha.

Pwy sy'n gyfrifol a beth yw'r troseddau?

Mae deddfwriaeth ddi-fwg yn berthnasol i unrhyw berson sy'n rheoli, neu sy'n ymwneud â rheoli adeiladau di-fwg. Mae hefyd yn berthnasol i weithwyr, cwsmeriaid ac ymwelwyr.

Mae methu â chydymffurfio â deddfwriaeth ddi-fwg yn drosedd.

- Gallai'r rheolwr neu'r person â rheolaeth dros unrhyw safle di-fwg gael dirwy am fethu ag atal eraill rhag ysmygu yn y safleoedd hynny (hyd at £2500 os ceir collfarn)
- Gallai unigolion fod yn agored i gosb benodedig, neu erlyniad, am ysmygu mewn safleoedd di-fwg (hyd at £200 os ceir collfarn)
- Gall y rheolwr neu'r person sy'n rheoli unrhyw safle di-fwg fod yn agored i Gosb benodedig, neu erlyniad, am fethu arddangos arwyddion 'Dim Ysmygu' (hyd at £1000 ar gollfarn)



Beth yw ystyr 'wedi'i amgáu'?

Dywedir bod safle wedi'i 'hamgáu' os oes ganddi nenfwd/to a'i bod wedi'u hamgáu'n llawn, (ar wahân i ddrysau, ffenestri, caeadau) naill ai'n barhaol neu dros dro.

Beth yw ystyr 'wedi'i amgáu'n sylweddol'?

Ystyrir bod y safle'n 'sylweddol gaeedig' os oes ganddo nenfwd neu do, a bod unrhyw agoriadau yn y waliau'n cyfateb i lai na 50% o gyfanswm arwynebedd y waliau. Rhaid bod o leiaf 50% o'r safle'n agored bob amser.

Wrth gyfrifo arwynebedd yr agoriadau, ni ddylid ystyried drysau, ffenestri, caeadau neu unrhyw ffitiadau eraill y gellir eu hagor neu eu cau ar unrhyw adeg.

Yn ogystal â hyn, ni ddylai unrhyw adeiledd to cyrraedd o fewn 1.5 metr i unrhyw 2 wal perimedr. Mae hyn er mwyn sicrhau lefel ddigonol o awyru a gwasgaru mwg.

Cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch

Gweithredwyr busnesau shisha sy'n gyfrifol am sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr ac unrhyw un arall sy'n ymweld â'u safleoedd (y sawl nad ydynt yn weithwyr) yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, yn ogystal â'r holl reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Rhaid nodi peryglon iechyd a diogelwch; asesu'r risg o anaf a chyflwyno mesurau rheoli priodol i leihau'r risg cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae materion allweddol i'w hystyried yn cynnwys:

- Atal y perygl o draws-heintio drwy sicrhau nad yw cegau pibellau shisha yn cael eu rhannu a'u bod yn cael eu gwaredu ar ôl eu defnyddio.
- Mae siarcol yn danwydd solet, ac wrth ei losgi mae'n cynhyrchu cynhyrchion hylosgi yn cynnwys carbon monocsid os yw'r awyru'n wael, neu os yw'r hylosgiad yn anghyflawn. Nid oes gan garbon monocsid unrhyw flas, arogl na lliw a gall achosi effeithiau salwch parhaol, neu



farwolaeth, o ganlyniad i amlygiad cymedrol. Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau shisha sicrhau bod awyru digonol ar gael bob amser. Argymhellir hefyd bod synwryddion carbon monocsid yn cael eu defnyddio i adnabod lefelau uwch o'r nwy.

- Sicrhau bod yr holl offer nwy, gan gynnwys gwresogyddion sy'n cynnwys LPG, yn cael eu cynnal gan beiriannydd sydd wedi'i gofrestru'n briodol gyda 'Gas Safe'.
- Sicrhau bod pob system drydanol o wneuthuriad addas ac yn cael eu cynnal a chadw rheolaidd gan beiriannydd trydanol cymwys (h.y. NICEIC).
- Sicrhau bod y risg o lithro, baglu a chwympo yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Ceir gwybodaeth bellach gan:


HealthandSafetyEnforcement@cardiff.gov.uk
neu ffonio 0300 123 6696

HealthandSafetyEnforcement-SRSWales@
valeofglamorgan.gov.uk

www.beta.gov.wales/smoking

www.gassaferegister.co.uk

www.hse.gov.uk



Tybaco a gwerthu dan oed

Yn ôl y gyfraith, mae'n drosedd i unrhyw berson werthu unrhyw gynhyrchion tybaco (gan gynnwys papurau sigarét) i unigolion o dan 18 oed, ar gyfer eu defnydd ei hun neu eraill ill dau.


Mae hwn yn drosedd atebolrwydd caeth, sy'n golygu y gall perchennog y busnes gael ei ddal yn gyfrifol yn ogystal â'r aelod o staff a wnaeth y gwerthiant. Bydd gan unrhyw un a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn hefyd yr amddiffyniad ei fod wedi cymryd 'pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy' i osgoi cyflawni'r drosedd.

Gallai unrhyw un sy'n gwerthu cynnyrch shisha i berson dan 18 oed gael ei erlyn gan dderbyn dirwy uchaf o £2500 os ceir collfarn. Rhaid gofyn bob amser am brawf oedran. Rhaid i weithredwyr busnes shisha arddangos yr arwydd rhybudd statudol, fel y dangosir isod.

MAE'N ANGHYFREITHLON GWERTHU CYNHYRCHION TYBACO I UNRHYW UN O DAN 18 OED

Rhaid arddangos yr hysbysiad mewn man amlwg lle gellir ei weld yn hawdd o'r man gwerthu. Rhaid i'r hysbysiad fod yn 297 mm x 420 mm (a3) o leiaf a rhaid i'r nodau fod yn 36 mm o uchder o leiaf.

Os oes tystiolaeth bod 3 gwerthiant anghyfreithlon wedi'i wneud o fewn cyfnod o 2 flwyddyn, a bod 1 ohonynt yn arwain at erlyniad, gall yr Awdurdod Lleol wneud cais i'r llys ynadon ar gyfer safle dan gyfyngiad a/neu orchymyn gwerthu cyfyngedig. Effaith y Gorchmynion hyn yw gwahardd safleoedd rhag gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco am hyd at 12 mis.



Labeli Cynnyrch

Rhaid labelu'r holl gynhyrchion tybaco a rhai nad ydynt yn dybaco a ddefnyddir ar gyfer ysmegu mewn pibellau shisha â'r rhybuddion iechyd: "Mae Ysmegu'n Lladd" neu "Mae Ysmegu'n eich niweidio chi a phobl eraill o'ch cwmpasyn ddifrifol" rhan gynnwys rhybudd iechyd (llun). Rhaid gosod y label hwn ar bob pecyn, gan gynnwys: **unrhyw flwch, pecyn, cynhwysydd, deunydd lapio neu gynhwysydd arall sy'n cynnwys y cynnyrch.**

Os caiff shisha eu cyflenwi i gwsmeriaid mewn powlen, rhaid cael rhybudd wrth y man gwerthu neu gyflenwi arddangos y rhybudd. Cysylltwch â'ch Tîm Safonau Masnach Lleol i gael rhagor o gyngor ar:

TradingStandards-SRSWales@valeofglamorgan.gov.uk

Cydymffurfio â deddfwriaeth drwyddedu


Bydd angen Trwydded Safle ar gyfer unrhyw "adloniant a reoleiddir", gan gynnwys cerddoriaeth, dawnsio a hefyd os gweinir bwyd poeth neu ddiodydd rhwng 23:00 a 05:00. Cysylltwch â'ch Awdurdod Trwyddedu lleol i weld beth sydd angen ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Licensing@cardiff.gov.uk

Licensing@bridgend.gov.uk

Licensing@valeofglamorgan.gov.uk

Gallai cosbau dan Ddeddf Drwyddedu 2003 fod cymaint â £20,000 a/neu 6 mis o garchar.



Cynllunio a Rheoli Adeiladu

Cyn adeiladu ardal ysmegu/shisha, rhaid i berchnogion busnes gysylltu'n gyntaf â'r Awdurdod Cynllunio perthnasol i weld a oes angen newid defnydd busnes, neu ganiatâd cynllunio. Rhaid i unrhyw waith a wneir ar y safle hefyd gydymffurfio â'r gofynion cyfredol o ran Rheoliadau Adeiladu.

Cysylltwch â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol i gadarnhau'r hyn sydd angen ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Mae cosbau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys dirwy uchaf hyd at £20,000. Yn ogystal â hyn, gall unrhyw fudd ariannol a gronwyd o ganlyniad i dorri'r Ddeddf fod yn destun gorchymyn atafaelu o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.

Mesurau atal sŵn

Mae'n ddyletswydd ar weithredwyr Bar Shisha i sicrhau bod y sŵn o holl rannau allanol y busnes yn cael ei gadw i'r lefel lleiaf bosib. Ystyriwch y posibilrwydd y bydd cwynion am niwsans sŵn gan gymdogion, yn enwedig os yw'r lolfa shisha'n agos i lety preswyl. Cysylltwch â'ch tîm Rheoli Llygredd Lleol i drafod eich dyletswyddau cyfreithiol cyn sefydlu eich busnes.

pollution-cardiff-srswales@valeofglamorgan.gov.uk

pollution-bridgend-srswales@valeofglamorgan.gov.uk

pollution-vale-srswales@valeofglamorgan.gov.uk



